


WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cyhoeddwyd: Mehefin 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 353A2014

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Lisa Williams a Ron Price o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno a chynigion ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Mae’r Awdurdod yn cyflawni gwelliannau yn ei swyddogaethau craidd 8

Mae’r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant, er y gellid atgyfnerthu ei drefniadau ymhellach 15

Mae’r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ac mae trefniadau cynllunio busnes yn parhau i wella ond bydd angen arweinyddiaeth gref er mwyn gweithredu’r newidiadau sydd eu hangen i ateb yr heriau ariannol a wynebir yn y dyfodol 18

Mae’r Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â’r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2014-15 os gall ateb yr heriau sy’n gysylltiedig â gweithredu’r newidiadau arfaethedig 24

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 25

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 26

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 28

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 30

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â threfniadau'r Awdurdod ar gyfer darparu a gwerthuso gwasanaethau yn ystod 2012-13, ei gynlluniau gwelliant ar gyfer 2013-14 a 2014-15 a, chan ystyried y rhain, noda gasgliad yr Archwilydd Cyffredinol o ran p'un a fydd yr Awdurdod yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2 Cafwyd gennym fod yr Awdurdod, yn 2012-13, wedi cyflawni gwelliannau yn ei swyddogaethau craidd. Daethom i'r casgliad hwn am fod yr Awdurdod:

- wedi gweithio'n galed i leihau nifer y tanau y mae'n ymateb iddynt mewn anheddau drwy gyflawni amrywiaeth eang o weithgareddau ataliol;
- yn ymgysylltu'n dda â phartneriaid er mwyn annog eiddo annomestig mwy diogel ac yn ceisio ffyrdd o wella'r wybodaeth reoli y mae'n ei defnyddio i gefnogi'r gwaith hwn;
- yn cynnal rhaglen o weithgareddau a reolir yn dda er mwyn lleihau nifer y tanau bwriadol;
- yn cydweithio â phartneriaid er mwyn annog diogelwch ar y ffyrdd;
- wedi parhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol a gwydn yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol.

3 Nodwyd hefyd fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan Fesur Llywodraeth Cymru (Cymru) 2009 er y gellid atgyfnerthu ei drefniadau ymhellach. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- cyhoeddodd yr Awdurdod ei Asesiad o Berfformiad ar gyfer 2012-13 (yr Asesiad) o fewn terfynau amser statudol, gwerthusodd ei lwyddiant wrth gyflawni ei amcanion gwella yn glir a gwnaeth gynnwys yr holl ddangosyddion perfformiad strategol a chraidd cenedlaethol gofynnol;
- mae'r Asesiad yn amlinellu ei ddull o gydweithredu;
- tynnodd yr Awdurdod sylw dinasyddion a phartneriaid at fodolaeth yr Asesiad;
- gweithredodd yr Awdurdod y rhan fwyaf o'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella; a
- gallai'r Asesiad wella ymhellach drwy gynnwys data gwirioneddol a ddisgrifir yn yr adran 'sut y mesurir llwyddiant', a thrwy ddefnyddio data mwy cymharol.

4 Yn olaf, nodwyd gennym fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio o dan Fesur Llywodraeth Cymru (Cymru) 2009. Mae trefniadau cynllunio busnes yn parhau i wella ond bydd angen arweinyddiaeth gref er mwyn gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen i ateb yr heriau ariannol a wynebir yn y dyfodol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- datblygodd yr Awdurdod drefniadau mwy effeithiol ar gyfer cynllunio gwelliant yn ystod 2013-14;
- parheir i reoli heriau ariannol yn effeithiol, er y bydd graddau'r newid sydd ei angen yn parhau i fynnu arweinyddiaeth a chyfeiriad pendant;
- mae mentrau i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn parhau;
- mae trefniadau digonol ar waith i fodloni deddfwriaeth Datgelu er Budd y Cyhoedd;
- mae gwaith yn parhau gydag Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru i ddatblygu gwybodaeth sylfaenol Adnoddau Dynol gyson; ac
- mae angen arweinyddiaeth gref ar lefel Aelod ac Uwch Swyddog o'r Awdurdod er mwyn gweithredu'r newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth.

5 Gan ystyried yr uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2014-15 os gall ateb yr heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r newidiadau arfaethedig.

## Cynigion ar gyfer gwella

| | |
|---|---|
| C1 | Atgyfnerthu'r Asesiad o Berfformiad drwy wneud y canlynol:<br>• cynnwys data gwirioneddol a ddisgrifir yn yr adran 'sut y mesurir llwyddiant';<br>• esbonio pam y defnyddir mesurau i werthuso cynnydd er mwyn helpu'r darllenwyr i ddeall; a<br>• defnyddio data mwy cymharol yn yr asesiad o Berfformiad er mwyn dangos perfformiad cymharol mewn meysydd allweddol yn erbyn Awdurdodau Gwella eraill yng Nghymru. |
| C2 | Ymdrin â data anghywir yn System Gwybodaeth Reoli Risg Tân yn y Gymuned (CFRMIS) drwy gydweithio â chyflenwr y system. |
| C3 | Sichrau bod y system newydd ar gyfer cyflwyno Adroddiadau ar Berfformiad yn llai dibynnol ar fewnbwn goddrychol gan reolwyr unigol am y cynnydd a wnaed o ran cyflawni amcanion gwella a sicrhau bod system i gyflwyno adroddiadau ar y cynnydd a wnaed yn gyffredinol o ran cyflawni pob amcan gwella ar waith. |
| C4 | Dylai aelodau a swyddogion gyda'i gilydd ystyried y rhesymau dros y diffyg hyder wrth wneud penderfyniadau a amlygir gan nifer y problemau a godwyd a chwilio am ffyrdd o wella prosesau cyfathrebu ar y cyd yn arbennig pan fydd angen iddynt gyfleu'r rhesymeg dros benderfyniadau anodd. |

C5 Nodi sut y gellir gwella gweithgarwch rheoli newid a threfniadau llywodraethu er mwyn cynorthwyo uwch swyddogion sy'n rhoi ffyrdd newydd o weithio ar waith a dangos perchenogaeth gyfunol o brosesau gwneud penderfyniadau. Gallai hyn gynnwys:

- gwella safon cadw cofnodion mewn cyfarfodydd;
- cynnal strategaeth cyfryngau a chyfathrebu effeithiol ar bob lefel er mwyn rhoi sicrwydd effeithiol i'r cyhoedd bod angen newidiadau y cytunwyd arnynt a hysbysu'r cyhoedd mewn modd priodol o'r proffil risg a fydd yn gysylltiedig â'r newid;
- adolygu sut y gellir datblygu cysylltiadau â'i randdeiliaid allanol er mwyn sicrhau, er y gellir herio penderfyniadau, fod modd gwneud hyn mewn amgylchedd lle y cytunwyd ar gyfres gyffredin o werthoedd;
- adolygu a yw'r trefniadau dirprwyedig presennol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn briodol (nawr ac yn sgil unrhyw newidiadau a wneir yn y dyfodol o ganlyniad i Adolygiad Williams); ac
- ystyried gwasanaeth cyfryngu neu hwyluso allanol a chyngor allanol lle y bo angen.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

6 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gwnaed y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, gyda chymorth Comisiynydd y Gymraeg. Rydym wedi dwyn ynghyd ddarlun o'r hyn y mae pob Cyngor neu Awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n mynd ati i wneud hynny, a'r cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn seiliedig ar hunanasesiad yr Awdurdod ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, noda'r adroddiad gasgliad yr Archwilydd Cyffredinol o ran p'un a yw'r Awdurdod yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

7 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Awdurdod. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

8 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

9 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

# Mae'r Awdurdod yn cyflawni gwelliannau yn ei swyddogaethau craidd

10 Ym mis Gorffennaf 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad[1] ar y cynnydd a wnaed gan y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru yn erbyn y Fframwaith Cenedlaethol[2] rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2013. Mae'r adroddiad yn cymryd cipolwg strategol ac yn canolbwyntio ar y meysydd hynny â blaenoriaeth a amlygwyd yn y Fframwaith blaenorol a'r Fframwaith presennol a luniwyd gan yr ATAau dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn enwedig o ran:

- Cydweithredu - sut mae'r ATAau yn ymgysylltu â chyrff cyhoeddus eraill, y trydydd sector, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd a'r cymunedau a wasanaethir gan yr ATAau;
- Cynllunio a Pherfformiad - gwella ansawdd ac argaeledd gwasanaethau'r ATAau a'r angen i ddarparu gwell gwasanaethau a chyflawni gwell canlyniadau i bobl Cymru, gyda llai o adnoddau;
- Darparu Gwasanaethau - dyletswyddau craidd yr ATAau i liniaru effaith risgiau a nodwyd, gan sicrhau ymateb proffesiynol ac effeithiol i amrywiaeth o ddigwyddiadau;
- Cadernid - sut mae'r ATAau yn gweithio i ymateb i fygythiadau mawr; ac
- Adnoddau - sut mae'r ATAau yn canolbwyntio ar flaenoriaethau cynllunio, datblygu a hyfforddi'r gweithlu ac arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod yr ATAau yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i ddinasyddion, tra'n diogelu eu staff eu hunain.

11 Diben y Fframwaith Cenedlaethol yw rhoi cyfeiriad i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol a'u rôl yng nghyd-destun y sector cyhoeddus ehangach. Ceir nifer o rolau a dyletswyddau allweddol sydd wrth wraidd y ddau Fframwaith:

- yr angen i ddarparu gwasanaeth cadarn;
- yr angen i gydweithredu er mwyn cyflawni nodau cyffredin; a'r
- angen i arloesi a gweithio mewn ffyrdd newydd er mwyn gwneud y gorau o'r talentau, arbenigedd ac adnoddau sy'n bodoli yng Nghymru.

12 Ceir dwy thema allweddol sy'n rhedeg drwy'r Fframwaith "2012 a thu hwnt" i ATAau ganolbwyntio arnynt:

- mesur canlyniadau i ddinasyddion a sut mae cydweithredu yn cefnogi'r agenda hon; ac
- ymdopi â llai, tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau priodol i ddinasyddion, yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

13 Yn sgil yr adroddiad, ac er mwyn osgoi dyblygu ymdrech, nid ydym wedi gwneud rhagor o waith i werthuso cynnydd yr awdurdodau tân ac achub yn erbyn y fframwaith cenedlaethol ein hunain. Fodd bynnag, yn y paragraffau canlynol rydym yn darparu crynodeb o berfformiad yr Awdurdod mewn pedwar maes penodol (tanau mewn anheddau, tanau mewn eiddo annomestig, tanau bwriadol, damweiniau traffig ar y ffyrdd) er mwyn llunio barn ar welliant yr

1 *Adroddiad Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2011-2013*

2 ("*Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru*" a gyhoeddwyd yn 2008 a "*Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub o 2012 ymlaen*" sy'n bodoli a nododd weledigaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau)).

Awdurdod yn ei swyddogaethau craidd. Rydym wedi tynnu sylw at rai enghreifftiau o’r gweithgareddau a gyflawnwyd gan yr Awdurdodau yn unol â phrif themâu’r Fframwaith fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 12 a 13.

## Mae’r Awdurdod wedi gweithio’n galed i leihau nifer y tanau y mae’n ymateb iddynt mewn anheddau drwy gyflawni amrywiaeth eang o weithgareddau ataliol

14 Ar y cyd â’r awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru, mae’r Awdurdod wedi datblygu’r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau sy’n amlinellu lefel y camau ataliol, diogelwch ac ymateb y gall cymunedau eu disgwyl mewn perthynas â’r risg o danau mewn anheddau er mwyn lleihau nifer y marwolaethau, anafiadau a thanau damweiniol mewn anheddau domestig.

15 Mae’r Awdurdod yn cyflawni amrywiaeth helaeth o weithgareddau ataliol er mwyn lleihau nifer y tanau mewn anheddau y mae’n ymateb iddynt. Mae llawer o staff, a leolir mewn gorsafoedd gweithredol a thimau canolog, yn cyfrannu at yr amrywiaeth o weithgareddau gwahanol sy’n anelu at godi ymwybyddiaeth a rhybuddio am y peryglon a all arwain at dân mewn annedd.

16 Mae profion diogelwch tân yn y cartref yn rhan bwysig o’r gwaith hwn fel mae’r rhaglen addysg mewn ysgolion, y caiff llawer ohonynt eu cyflawni ar y cyd â phartneriaid allanol. Mae’r Awdurdod yn anelu at sicrhau bod y Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gyflawnir wedi’u targedu cymaint â phosibl at y rhai sy’n wynebu’r risg fwyaf o dân yn y cartref. Er mwyn gwneud hyn mae’n gweithio gyda nifer o asiantaethau partner sydd â mynediad i ddata y gall yr Awdurdod eu defnyddio i bennu risgiau. Mae Profion Diogelwch Tân yn y Cartref yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth a chyngor i gartrefi ar sut i leihau’r risg o danau yn y cartref a beth i’w wneud os bydd un yn digwydd.

17 ‘Mae cyfanswm nifer y tanau yr ymatebir iddynt ledled Cymru wedi lleihau’n sylweddol dros y degawd diwethaf, o 26,327 yn 2004-05 i 11,437 yn 2012-13, gostyngiad o 57 y cant. Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru mae nifer y tanau yr ymatebir iddynt wedi lleihau o 7,166 yn 2004-05 i 3,245 yn 2012-13, gostyngiad o 55% dros yr un cyfnod.’

18 Gwelwyd gostyngiad o wyth y cant yng nghyfanswm nifer y tanau mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2012-13 o gymharu â’r flwyddyn flaenorol (o 610 o achosion yn 2011-12 i 563 yn 2012 13). Yn ogystal:

- cafwyd gostyngiad o bump y cant yn nifer y tanau damweiniol mewn anheddau yn ystod 2012-13 o gymharu â’r flwyddyn flaenorol (o 555 yn 2011-12 i 525 yn 2012-13), sy’n well na’r gostyngiad cyfartalog o bedwar y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod; a
- chafwyd gostyngiad o 31 y cant yn nifer y tanau mewn anheddau a ddechreuwyd yn fwriadol (o 55 o achosion yn 2011-12 i 38 yn 2012-13) sydd gryn dipyn yn well na’r gostyngiad o 20 y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

19 Gwelwyd cynnydd yng nghyfanswm nifer y tanau mewn cartrefi lle cynhaliwyd

asesiad risg diogelwch tân yn y cartref a/neu weithgarwch lleihau risg cysylltiedig o fewn dwy flynedd cyn y tân o 49 o achosion yn 2011-12 i 81 o achosion yn 2012-13, sef cynnydd o 65 y cant o gymharu â chynnydd o bump y cant ledled Cymru.

20 Bu farw un person mewn tân mewn annedd yn ystod 2012-13 (bu farw tri o bobl mewn tanau mewn anheddau yn ystod 2011-12). Cafwyd cynnydd o 18 y cant yn nifer yr anafiadau a gafwyd mewn tanau mewn anheddau yn ystod 2012-13 (o 55 yn 2011-12 i 45 yn 2012-13) o gymharu â gostyngiad o un y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

21 Ceir rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu bod larymau mwg a roddir am ddim fel rhan o'r gwiriadau diogelwch tân yn y cartrefa gynhelir gan yr Awdurdod yn cyrraedd y rheini sy'n wynebu risg, yn arbennig, yn y tanau yr ymatebwyd iddynt:

- roedd llai o bobl yn byw mewn cartref lle nad oedd larwm mwg wedi'i osod (o 39 y cant yn 2011-12 i 33 y cant yn 2012-13), er bod y gyfran hon yn uwch o hyd na chyfartaledd Cymru sef 30 y cant ar gyfer 2012-13;
- bu cynnydd yn nifer yr achosion o gyfarpar canfod tân a weithredwyd (o 48 y cant yn 2011-12 i 50 y cant yn 2012-13), er bod y gyfran hon yn is o hyd na chyfartaledd Cymru, sef 51 y cant, ar gyfer yr un cyfnod; ac
- roedd gan fwy o anheddau gyfarpar canfod tân wedi ei osod na chafodd ei weithredu (o 12 y cant yn 2011-12 i 15 y cant yn 2012-13) sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 19 y cant ar gyfer yr un cyfnod.

## Mae'r Awdurdod yn ymgysylltu'n dda â phartneriaid er mwyn annog eiddo annomestig mwy diogel ac yn ceisio ffyrdd o wella'r wybodaeth reoli y mae'n ei defnyddio i gefnogi'r gwaith hwn

22 Mae'r Awdurdod yn cyflawni gweithgareddau diogelwch tân busnesau bob blwyddyn drwy raglen archwilio risg safleoedd busnes. Mae'r Awdurdod hefyd yn defnyddio gwybodaeth am ddigwyddiadau i dargedu gwaith ychwanegol er mwyn lleihau'r risg o dân mewn eiddo annomestig. Mae'r Awdurdod wedi gweithio'n gadarnhaol gyda'r gymuned fusnes wrth gynnal archwiliadau diogelwch tân mewn busnesau a chodi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â diogelwch tân.

23 Mae'n gadarnhaol bod nifer y tanau mewn eiddo annomestig ledled Cymru wedi lleihau 51 y cant yn y cyfnod rhwng 2004-05 a 2012-13. O fewn Canolbarth a Gorllewin Cymru mae wedi lleihau 56 y cant dros yr un cyfnod.

24 Mae'r Awdurdod yn cydnabod nad yw'r gronfa ddata sy'n dal gwybodaeth am y math o adeiladau annomestig a'u lleoliad, sef CFRMIS (System Gwybodaeth Reoli Risg rhag Tân yn y Gymuned) yn gywir oherwydd problemau paru data o'r

ffynonellau gwybodaeth sy'n cyflenwi cronfa ddata CFRMIS. Er mai'r cyflenwr sydd wedi achosi rhai o'r problemau hyn, ac mae ymdrechion i ddatrys y problemau yn parhau, mae'n tanseilio gallu'r Awdurdod i gofnodi a mesur risg ar draws safleoedd annomestig yn gywir.

25 Cafwyd gostyngiad o 22 y cant yn nifer y tanau ar safleoedd annomestig yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2012-13 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 282 o achosion yn 2011-12 i 220 yn 2012-13), sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef gostyngiad o 16 y cant ar gyfer yr un cyfnod.

26 Ni fu unrhyw bobl farw mewn tanau ar safleoedd annomestig yn ystod 2012-13 (fel yn 2011-12) yn unol â'r sefyllfa ledled Cymru. Cafwyd gostyngiad yn nifer yr anafiadau a gafwyd mewn tanau o'r fath o 11 yn 2011-12 i chwech yn 2012-13, sy'n ostyngiad o 45 y cant, o gymharu â'r gostyngiad o 33 y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod. Fodd bynnag, mae'r niferoedd hyn yn fach a gall pob digwyddiad gael effaith sylweddol wrth gymharu blynyddoedd.

27 Mae lleihau nifer y galwadau larymau ffug (a achosir gan systemau larwm a chanfod tân awtomatig) a dderbynnir ac yr ymatebir iddynt (gan gynnwys rhai maleisus) fel bod gwasanaethau tân ac achub ledled Cymru yn treulio llai o amser ac yn defnyddio llai o danwydd ac adnoddau mewn digwyddiadau diangen yn rhan allweddol o'r gwaith gyda rheolwyr eiddo annomestig. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag ysbytai a phrifysgolion yn ogystal â pherchenogion eiddo busnes bach a mawr.

28 Mae cyfanswm nifer y galwadau larymau ffug maleisus a gafwyd wedi lleihau 48 y cant dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ledled Cymru (o 5,210 yn 2004-05 i 2,706 yn 2012-13). Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru gwelwyd gostyngiad o 60 y cant yng nghyfanswm nifer y galwadau larymau ffug maleisus a gafwyd yn yr un cyfnod (o 1,197 yn 2004-05 i 484 yn 2012-13).

29 Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru gwelwyd gostyngiad o 12 y cant yng nghyfanswm nifer y galwadau larymau ffug maleisus a gafwyd (o 551 yn 2011-12 i 484 yn 2012-13) sy'n cyfateb, fwy neu lai, i'r gostyngiad o 11 y cant a welwyd ledled Cymru yn yr un cyfnod (o 3,024 yn 2011-12 i 2,706 yn 2012-13).

30 Ers 2004-05 mae nifer y galwadau larymau ffug maleisus yr ymatebwyd iddynt yng Nghymru wedi lleihau 60 y cant o 1775 yn 2004-05 i 702 yn 2012-13. Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru mae nifer y galwadau larymau ffug maleisus yr ymatebwyd iddynt wedi lleihau 68 y cant o 561 yn 2004-05 i 180 yn 2012-13. Arhosodd cyfanswm nifer y galwadau larymau ffug maleisus yr ymatebwyd iddynt yn ddigyfnewid ar gyfer 2011-12 a 2012-13 (sef 180). Mae hyn yn cymharu â gostyngiad o 13 y cant ledled Cymru yn yr un cyfnod (o 807 yn 2011-12 i 702 yn 2012-13).

31 Ledled Cymru mae cyfanswm nifer y larymau ffug yr ymatebwyd iddynt (a achoswyd gan systemau larymau a chanfod tân awtomatig mewn eiddo annomestig) wedi lleihau 25 y cant dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf (o 9,217 yn 2004-05 i 6,953 yn 2012-13). Yng Nghanolbarth a

Gorllewin Cymru mae'r nifer yr ymatebwyd iddynt wedi lleihau 14 y cant (o 1,950 yn 2004-05 i 1,683 yn 2012-13) dros yr un cyfnod.

32 Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru mae cyfanswm nifer y larymau ffug yr ymatebwyd iddynt (a achoswyd gan systemau larymau a chanfod tân awtomatig mewn eiddo annomestig) wedi cynyddu dau y cant (o 1,653 yn 2011-12 i 1,683 yn 2012-13), o gymharu â gostyngiad o un y cant ledled Cymru dros yr un cyfnod.

33 Mae'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol wrthi'n adolygu trefniadau herio ac ymateb i alwadau o ran larymau ffug awtomataidd mewn eiddo annomestig er mwyn datblygu dull gweithredu Cymru gyfan.

## Mae'r Awdurdod yn cynnal rhaglen eang o weithgareddau a reolir yn dda er mwyn lleihau nifer y tanau bwriadol

34 Mae'r Awdurdod wedi gweithredu agenda ataliol ac wedi gweithio'n dda gyda phartneriaid allanol er mwyn lleihau'r risg o dân ledled yr ardal. Mae gwaith y Tîm Lleihau Tanau Bwriadol mewn cydweithrediad â'r Heddlu i dargedu, er enghraifft, danau glaswelltiroedd yn cyfrannu at y gwaith ataliol hwn. Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y gall ffactorau tymhorol, y tywydd a materion diwylliannol gael dylanwad o ran cynnau tanau bwriadol.

35 Ledled Cymru, mae cyfanswm nifer y tanau bwriadol yr ymatebwyd iddynt dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi lleihau 68 y cant dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf (o 19,709 yn 2004-05 i 6,399 yn 2012-13). Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru mae'r nifer yr ymatebwyd iddynt hefyd wedi lleihau 68 y cant (o 4,712 yn 2004-05 i 1,494 yn 2012-13) dros yr un cyfnod.

36 Cafwyd gostyngiad o 38 y cant yn nifer y tanau bwriadol yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2012-13 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 2,426 o achosion yn 2011-12 i 1,494 yn 2012-13), sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef gostyngiad o 40 y cant ar gyfer yr un cyfnod.

37 Cafodd 46 y cant o'r holl danau yr ymatebwyd iddynt yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn ystod 2012-13 eu dechrau'n fwriadol. Mae'r ffigur hwn yn is na ffigur 2011-12 (sef 54 y cant) ac yn is na chyfartaledd Cymru, sef 56 y cant ar gyfer yr un cyfnod.

38 Gostyngodd nifer yr anafiadau a gafwyd mewn tanau bwriadol o saith yn 2011-12 i bedwar yn 2012-13, sef gostyngiad o 87 y cant, o gymharu â chyfartaledd Cymru ar gyfer yr un cyfnod, sef 77 y cant. Fodd bynnag, mae'r niferoedd hyn yn fach a gall pob digwyddiad gael effaith sylweddol wrth gymharu blynyddoedd.

39 Ni fu neb farw mewn tanau bwriadol yn ystod 2012-13 (cofnodwyd un farwolaeth mewn tân bwriadol yn ystod 2011-12).

## Mae'r Awdurdod yn cydweithio â phartneriaid er mwyn annog diogelwch ar y ffyrdd

40 Nid oes gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd, ond mae'n cydweithio â'r Heddlu ac eraill i wella diogelwch ar y ffyrdd drwy Grŵp Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru. Er mwyn hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd ymgymerodd yr Awdurdod, ynghyd â phartneriaid diogelwch ar y ffyrdd eraill, lawer o fentrau y bwriadwyd iddynt leihau nifer y damweiniau ar y ffordd, gan gynnwys:

- parhau â'i rôl fel partner o fewn Grŵp Diogelwch Ffyrdd Cymru;
- cynllun gyrru Pass Plus Cymru sydd wedi'i anelu at yrwyr ifanc 18 i 25 oed;
- y Cynllun Addysg Moduro, sef menter bartneriaeth sy'n cynnwys yr Heddlu ac Awdurdodau Lleol; ac
- arddangosiadau fel rhan o sioe deithiol 'Trawiadol' a chymryd rhan mewn diwrnodau diogelwch ar y ffyrdd amlasiantaethol.

41 Dengys ffigurau diogelwch ar y ffyrdd fod gwelliant cyffredinol ledled Cymru yn ystod 2012-13, gyda nifer y damweiniau angheuol a difrifol yn lleihau'n sylweddol, gyda llai o farwolaethau ac anafiadau na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r Awdurdod wedi gweld gwelliant eleni a gwelwyd gostyngiad yn nifer y damweiniau angheuol a difrifol, marwolaethau ac anafiadau a gyrwyr ifanc a oedd mewn damweiniau ond gwelwyd cynnydd yn nifer y gwrthdrawiadau traffig yr ymatebwyd iddynt a nifer y gyrwyr beiciau modur a anafwyd:

- Bu cynnydd o naw y cant yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2012 o 1,007 yn 2011-12 i 1110 yn 2012-13; mae hyn yn fwy na'r gostyngiad o dri y cant ledled Cymru yn ystod yr un cyfnod.
- Mae nifer y damweiniau angheuol a difrifol wedi lleihau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru 13 y cant, o 413 o ddamweiniau yn 2011 i 358 o ddamweiniau yn 2012; mae hyn yn llai na'r gostyngiad o 16 y cant ledled Cymru yn ystod yr un cyfnod.
- Arhosodd nifer y bobl a fu farw mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd yn ddigyfnewid a chofnodwyd 38 o farwolaethau yn 2011 a 2012; mae hyn yn ostyngiad o 23 y cant yn nifer y marwolaethau ledled Cymru yn ystod yr un cyfnod.
- Lleihaodd nifer y marwolaethau ac anafiadau saith y cant rhwng 2011 pan gafwyd 3,345 o achosion a 2012 pan gafwyd 3,107, sy'n fwy na'r gostyngiad o 9 y cant a welwyd ledled Cymru.
- Roedd llai o yrwyr 25 ac iau mewn damweiniau traffig ar y ffyrdd. Mae'r nifer hon wedi lleihau o 987 yn 2011 i 904 yn 2012, gostyngiad o wyth y cant. Mae'r ffigur hwn yn llai na'r gostyngiad o 11 y cant a welwyd ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

- Bu cynnydd o bump y cant yn nifer y gyrwyr beiciau modur a anafwyd yn 2012 o gymharu â 2011 (261 o gymharu â 249 yn 2011), sy'n fwy o gynnydd na'r cynnydd o ddau y cant a welwyd ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

## Parhaodd yr Awdurdod i ddarparu gwasanaeth effeithiol a gwydn yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol

42 Ers canol 2013 mae'r Awdurdod wedi wynebu heriau mewn anghydfod cenedlaethol sy'n ymwneud yn bennaf â newidiadau arfaethedig y Llywodraeth i drefniadau Pensiwn diffoddwyr tân. O ganlyniad, bu angen i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith i barhau i ddarparu ei wasanaethau yn ystod y cyfnodau hyn o weithredu diwydiannol sydd wedi rhoi baich ychwanegol ar yr Awdurdod, yn ariannol ac yn weithredol. Llwyddodd yr Awdurdod i ymateb i'r her hon yn effeithiol yn ystod 2013 tra'n cefnogi awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru ar yr un pryd heb unrhyw golled sylweddol mewn gwasanaeth. Mae'r anghydfod parhaus yn dal i fod yn her i'r Awdurdod yn ystod 2014 ac nid yw'n glir pa effaith y bydd hyn yn ei chael ar yr Awdurdod yn y dyfodol.

# Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant, er y gellid atgyfnerthu ei drefniadau ymhellach

## Cyhoeddodd yr Awdurdod ei Asesiad o Berfformiad ar gyfer 2012-13 o fewn terfynau amser statudol, gwerthusodd ei lwyddiant wrth gyflawni ei amcanion gwella yn glir a gwnaeth gynnwys yr holl ddangosyddion perfformiad strategol a chraidd cenedlaethol gofynnol

43 Cymeradwyodd a chyhoeddodd yr Awdurdod ei Asesiad o Berfformiad 2012-13 erbyn y terfyn amser statudol sef 31 Hydref 2013. O fewn yr Asesiad mae'r Awdurdod yn gwerthuso ei lwyddiant wrth gyflawni ei amcanion gwella ac yn mynegi ei farn yn eglur.

44 Mae'r Asesiad yn cynnwys manylion am berfformiad fel y'i mesurir gan y dangosyddion perfformiad strategol a chraidd cenedlaethol. Nododd ein hadolygiad o ansawdd data yn ystod 2013 fod gwybodaeth dangosyddion strategol a chraidd cenedlaethol yn gywir ac yn cael eu cefnogi gan ddulliau priodol i werthuso, monitro ac adolygu data.

45 Awgryma Llywodraeth Cymru hefyd, yn ei Fframwaith Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub, y dylid cynnwys y mesurau canlynol (lleol yn bennaf):

- perfformiad o ran cynnal cymhwysedd gweithredol (er y caiff data bylchau sgiliau ei gynnwys);
- perfformiad yn erbyn Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Tân ac Achub Cymru;
- perfformiad yn erbyn Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod; a
- gwybodaeth mewn perthynas â chynaliadwyedd (lle mae amcan gwella penodol ar gyfer hyn).

46 Mae'r Awdurdod wedi cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth yn y meysydd hyn o fewn ei Asesiad o Berfformiad ar gyfer 2012-13. Fodd bynnag, er y cyfeirir at Gynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Tân ac Achub Cymru a dolen i *Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-13* ac ystadegau sy'n ymwneud ag amrywiaeth y gweithlu, prin yw'r wybodaeth am berfformiad yn y maes hwn.

## Mae'r Asesiad yn amlinellu ei ddull o gydweithredu

47 Mae'r Awdurdod wedi nodi yn ei Asesiad sut mae wedi datblygu trefniadau cydweithredu gyda gwasanaethau ac asiantaethau brys eraill gan gynnwys arbenigwyr o Fyrddau Iechyd Lleol. Bu'n cydweithio â Bwrdd Iechyd Hywel Dda ar brosiect Iechyd Meddwl gan ddarparu hyfforddiant i ymarferwyr Iechyd Meddwl ar sut i gyflwyno cyrsiau diogelwch tân yn y cartref a hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân i nyrsys dan hyfforddiant. Darparwyd hyfforddiant iechyd meddwl i bersonél Gwasanaethau Tân er mwyn eu galluogi i ymgysylltu'n well ag unigolion sy'n agored i niwed.

48 Drwy gydweithio â'r Heddlu mae'r Tîm Atal Tanau Bwriadol wedi darparu hyfforddiant i 77 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Mae'r Tîm Atal Tanau Bwriadol hefyd yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru lle mae clirio safleoedd peryglus yn broblem ac ar reoli tir mewn perthynas â thanau glaswelltiroedd.

49 Mae'r Awdurdod wedi llwyddo i gynyddu nifer y gwiriadau diogelwch tân yn y cartref a gynhelir gan bartneriaid. Mae'r bartneriaeth â'r sector gwirfoddol wedi gweld cynnydd o 51 y cant yn nifer y gwiriadau diogelwch tân yn y cartref a gynhaliwyd gan bartneriaid megis Groundwork a Gofal a Thrwsio.

## Tynnodd yr Awdurdod sylw dinasyddion a phartneriaid at fodolaeth yr Asesiad

50 Mae'r Awdurdod wedi gwneud ei ddinasyddion yn ymwybodol o fodolaeth yr Asesiad. Mae ar gael yn hawdd, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ar wefan yr Awdurdod gyda chopïau caled, a fformatau eraill, ar gael ar gais. Mae'r Asesiad yn egluro sut y gall pobl gynnig blaenoriaethau gwella newydd ac ymgysylltu â'r Awdurdod ar gynllunio gwelliant.

## Gweithredodd yr Awdurdod y rhan fwyaf o'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella

51 Yn *Adroddiad Gwella Blynyddol* diwethaf yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Mawrth 2013 daethom i'r casgliad fod y trefniadau ar gyfer gwerthuso a chyflwyno adroddiadau yn well nag oeddent mewn blynyddoedd blaenorol ond y gellid atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r cyhoedd a sicrhau eu bod yn fwy hygyrch, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Nodwyd gennym nad oedd *Adroddiad Asesu Perfformiad* yr Awdurdod ar gyfer 2011-12 yn adlewyrchu'n llawn ganllawiau Llywodraeth Cymru ond y byddai'n gwneud hynny pe bai'r Awdurdod yn gwneud y canlynol:

- nodi'r meysydd gwella yn gliriach;
- cynnwys datganiad clir ar ba mor dda y mae'n meddwl ei fod wedi cyflawni ei faes gwella;
- cynnwys rhesymeg i egluro pam bod mesurau penodol a ddefnyddir yn briodol ar gyfer gwerthuso cynnydd;
- defnyddio esboniadau cliriach sy'n galluogi'r darllenwyr i weld a deall effaith gwelliannau a newidiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn.

52 Nodwyd hefyd fod yr Awdurdod wedi cymryd camau cadarnhaol i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod ei asesiad ar gael, ond ei fod yn dibynnu'n sylweddol ar y fformat electronig a gall mynediad ehangach i'r data fod yn broblem i rai pobl. Hefyd, defnyddiodd yr Awdurdod ystod gul o wybodaeth berthnasol i ddod i'w gasgliadau ac mae'n gweithio i wella ei allu i ddangos effaith ei weithgarwch.

53 Mae'r Awdurdod wed i ymateb yn gadarnhaol i'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella ac awgrymiadau i wneud y ddogfen yn 'haws ei defnyddio'. Gwnaeth yr Adroddiad hyn fel a ganlyn:

- drwy sicrhau bod crynodeb o berfformiad ar gael yn eang;
- nodi'r meysydd gwella yn 2012-13 o fewn pum maes thematig Cynllun Gwella Strategol yr Awdurdod (rheoli risg, rheoli pobl, cydweithio, rheoli adnoddau a rheoli perfformiad);
- cynnwys datganiad clir ar ba mor dda mae'r Awdurdod yn meddwl ei fod wedi cyflawni ym mhob un o'i feysydd gwella thematig; a

- defnyddio llai o iaith ‘dechnegol’ a rhoi esboniadau cliriach sy’n galluogi’r darllenwyr i weld a deall effaith gwelliannau a newidiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn.

## Gallai’r Asesiad wella ymhellach drwy gynnwys data gwirioneddol a ddisgrifir yn yr adran ‘sut y caiff llwyddiant ei fesur’, a thrwy ddefnyddio data mwy cymharol

54 Gallai’r Awdurdod wella ei asesiadau ymhellach yn y dyfodol drwy wneud y canlynol:

- Cynnwys data gwirioneddol a ddisgrifir yn yr adran ‘sut y gwnaethom fesur llwyddiant’. Er y caiff y rhain eu rhestru, ni ddarperir y data gwirioneddol. Byddai gwneud hynny, ynghyd â chynnwys rhesymau i egluro pam y defnyddir mesurau penodol i werthuso cynnydd, yn gwella dealltwriaeth y darllenydd.

- Defnyddio data mwy cymharol. Er bod yr Asesiad yn cynnwys data cymharol yn erbyn dangosyddion Strategol a Chraidd Cenedlaethol Cymru, a thargedau ar gyfer 2013-14, prin yw’r defnydd a wneir o ddata cymharol sy’n dangos perfformiad yn erbyn Awdurdodau Gwella eraill yng Nghymru.

55 Mae’r Awdurdod wrthi’n ymgynghori â’r Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru drwy’r Pwyllgor Materion Cenedlaethol ar sut y gellir defnyddio data mwy cymharol.

## Mae’r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant ac mae trefniadau cynllunio busnes yn parhau i wella ond bydd angen arweinyddiaeth gref er mwyn gweithredu’r newidiadau sydd eu hangen i ateb yr heriau ariannol a wynebir yn y dyfodol

### Datblygodd yr Awdurdod drefniadau mwy effeithiol ar gyfer gwella prosesau cynllunio gwelliant yn ystod 2013-14

56 Mae’r Awdurdod wedi datblygu trefniadau mwy effeithiol i ategu prosesau cynllunio gwelliant yn ystod 2013-14. Mae trefniadau ar waith ar gyfer pennu amcanion gwella mewn ffordd gydweithredol. Mae gan yr Awdurdod weithgor aelodau ac mae wedi rhoi cyfleoedd i staff leisio barn ar gynllunio gwelliant. Roedd staff yn ymwybodol o’r amcanion gwella ar gyfer 2013-14 a 2014-15.

57 Mae’r Awdurdod wedi rhoi esboniadau o pam y dewiswyd ei dri amcan gwella ar gyfer 2014-15. Mae’r tri amcan gwella fel a ganlyn:

- mae staff, cymunedau a rhanddeiliaid yn ystyried bod ganddynt fwy o wybodaeth ac maent yn ymwybodol o’r hyn y mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ei wneud a pha mor dda y mae’n ei wneud;
- parhau i wneud cymunedau yn fwy diogel drwy leihau risgiau a chynnal safonau o ran darparu gwasanaethau o fewn cyllideb lai; a
- deall sut mae camau gweithredu yn sicrhau gwell canlyniadau i gymunedau er mwyn llywio gwaith cynllunio yn y dyfodol a gwella’r gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod.

58 Mae’r Awdurdod wedi nodi ei ganlyniad arfaethedig ac mae’n disgrifio’n fras ‘sut y bydd yn mesur ac yn cofnodi cyflawniadau’ ar gyfer pob un o’r tri amcan gwella. Mae’n parhau i gasglu ynghyd y wybodaeth fanwl sydd ei hangen arno i gefnogi’r mesurau hyn drwy’r system rheoli perfformiad newydd (a fydd yn disodli system Ffynnon) a chan ddefnyddio gwefan newydd y fewnrwyd.

59 Mae’r Awdurdod wedi rhoi manylion yr amcanion gwella i randdeiliaid a’r cyhoedd. E-bostiodd yr Awdurdod ei Asesiad o Berfformiad i bartneriaid a rhanddeiliaid.

60 Gwelsom fwy o ffocws ar gydraddoldeb wrth ddewis yr Amcanion Gwella ar gyfer 2014-15. Mae’r system rheoli perfformiad newydd yn ymgorffori gwiriadau a chwestiynau cynorthwyol o ran Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb ac yn adlewyrchu’n well anghenion y bobl hynny â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

61 Mae’r Awdurdod wedi cydnabod pwysigrwydd ymgynghori ac ymgysylltu â’r cymunedau y mae’n eu gwasanaethu ac y gall wella’r ffordd y mae’n gwneud hyn. Mae wedi gwneud hyn yn amcan gwella ar gyfer 2014-15 ac mae angen iddo bellach ddatblygu mesurau perfformiad clir er mwyn asesu’r cynnydd a wnaed o ran ymgysylltu ac ymgynghori.

62 Mae’r adroddiadau ar berfformiad a gyflwynir i’r aelodau ar hyn o bryd yn fanwl iawn ac maent yn canolbwyntio ar gamau gweithredu gydag adrannau ac ardaloedd

rheoli. Mae hyn yn galluogi rheolwyr i asesu cynnydd yn erbyn amcanion yn oddrychol, a all arwain at anghysondebau o ran y ffordd y defnyddir statws RAG sydd wrth wraidd yr adroddiadau. Nid yw'r wybodaeth ddiweddaraf hon am gamau gweithredu yn cael ei 'chasglu ynghyd' er mwyn rhoi trosolwg cyffredinol o gynnydd yn erbyn amcanion gwella ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r Awdurdod asesu cynnydd cyffredinol. Mae angen trefniadau mwy cadarn a phendant er mwyn llunio adroddiadau mwy cyson a chywir ar berfformiad.

63 Nodwyd bod rhai heriau o ran digonolrwydd systemau a ddefnyddir gan yr Awdurdod i gefnogi ei waith cynllunio a llunio ffurflenni Llywodraeth Cymru mewn dau faes penodol:

- **Data diogelwch tân busnesau** – nid yw'r gronfa ddata sy'n cadw gwybodaeth am y math o adeiladau annomestig a'u lleoliad sef CFRMIS yn gywir oherwydd problemau sy'n ymwneud â pharu data o'r ffynonellau gwybodaeth sy'n cyflenwi cronfa ddata CFRMIS. Er mai'r cyflenwr sydd wedi achosi rhai o'r problemau hyn, ac mae ymdrechion i'w datrys yn parhau, mae'n tanseilio gallu'r Awdurdod i gofnodi a mesur risg yn gywir ar bob safle annomestig.
- **Y gofrestr asedau** – cynhelir y gofrestr asedau gan yr Adran Gyllid ar daenlen a gaiff ei diweddaru â llaw bob blwyddyn. Mae'r Awdurdod wrthi'n penderfynu sut y dylid casglu a chadw'r wybodaeth yn y dyfodol gan gydweithio ag awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru.

## Parheir i reoli heriau ariannol yn effeithiol, er y bydd graddau'r newid sydd ei angen yn parhau i fynnu arweinyddiaeth gref a chyfeiriad pendant

64 Ar 25 Medi 2013, cyflwynodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Awdurdod. Amgaeir copi o Lythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig i'r Awdurdod, sy'n crynhoi'r prif negeseuon sy'n deillio o'r archwiliad, yn Atodiad 3. Mae'r adolygiad o faterion y gwnaeth etholwyr llywodraeth leol ddwyn fy sylw atynt (y cyfeirir atynt yn y llythyr hwn) bellach wedi'i gwblhau a daw'r archwiliad ar gyfer 2012-13 i ben yn fuan.

65 Ar 20 Hydref 2010, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys adolygiad o wariant 2010 i'r Senedd. Roedd yr adolygiad hwn yn rhan ganolog o ymateb y llywodraeth glymblaid i'r angen i leihau'r diffyg cenedlaethol, gyda'r bwriad o fantoli arian cyhoeddus. Yr arbedion hyn yw'r lleihad mwyaf mewn gwariant cyhoeddus ers y 1920au ac maent yn dod ar adeg pan fo newidiadau demograffig a phwysau economaidd sy'n gysylltiedig â'r dirwasgiad yn cynyddu'r galw am rai gwasanaethau. Er mwyn cynllunio cyllid yn effeithiol, mae angen i awdurdodau ddadansoddi manylion am dueddiadau ariannol, gwybodaeth feincnodi briodol, senarios posibl a'u heffaith debygol yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol a'r setliad anodd diweddar i lywodraeth leol yn golygu bod gwaith cynllunio ariannol da yn hanfodol i gynnal cydnerthedd ariannol.

66 Rydym wrthi'n ystyried iechyd ariannol awdurdodau, eu dulliau cyllidebu ac i ba raddau y maent yn cyflawni'r arbedion gofynnol, er mwyn rhoi sicrwydd bod awdurdodau yn ariannol gydnerth. Bydd y gwaith hwn yn ystyried p'un a oes gan awdurdodau drefniadau cadarn ar waith i reoli'r gostyngiadau cyllidebol sy'n eu hwynebu er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa ariannol sefydlog sy'n eu galluogi i barhau i weithredu yn y dyfodol agos. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar gyfnod cynllunio ariannol 2014-15 a chyllidebau 2013-14. Caiff yr adolygiad hwn ei gwblhau ar ddechrau 2014-15 a byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein cylch nesaf o waith asesu gwelliant.

67 Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo cyllideb net o £43,522,194 ar gyfer 2014/15 sy'n ostyngiad o 0.81 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Caiff rhan o'r gyllideb a gymeradwywyd ei hariannu gan gyfraniad o £605,000 o gronfeydd wrth gefn, a fydd yn galluogi'r Awdurdodau Cyfansoddol i gyfrannu £42,917,194, sy'n ostyngiad o 1.56 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hefyd wedi cymeradwyo Rhaglen Gyfalaf a rhaglen adnewyddu cerbydau ar gyfer y cyfnod 2014-2017.

68 Er nad oes gan yr Awdurdod ffigurau cyllido dangosol eto ar gyfer 2016-17, mae'r pwysau ariannol a wynebir ganddo dros y ddwy flynedd nesaf yn sylweddol ac yn heriol. O fewn yr Awdurdod mae nifer y tanau, anafiadau a marwolaethau wedi parhau i leihau. Mae newidiadau sylweddol i'r ffordd y darperir gwasanaethau, er enghraifft, drwy Bympiau Ymateb Gwledig, yr Uned Tanau Bach yn Abertawe a newidiadau o ran criwiau yn Llanelli, wedi rhyddhau adnoddau i gefnogi gweithgareddau diogelwch cymunedol a chynnal ymateb gweithredol cydnerth.

69 Mae defnyddio cronfeydd wrth gefn yn ffordd o leihau effeithiau'r pwysau ariannol, ond o gofio'r pwysau chwyddiannol cyffredinol, dyfarniad cyflog o un y cant sydd angen ei weithredu ym mhob un o'r tair blynedd nesaf a chodiadau mewn cyfraniadau pensiwn, mae'n amlwg bod terfyn i'r defnydd y gellir ei wneud o gronfeydd wrth gefn. Bydd yr angen i fantoli'r gyllideb yn 2015-16 a 2016-17 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud penderfyniadau anodd am yr ymddengys na fydd modd cynnal y ddarpariaeth gwasanaethau bresennol o fewn y cyfyngiadau ariannol a ragwelir.

## Mae mentrau i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn parhau

70 Mae'r Gwasanaeth wedi buddsoddi amser ac adnoddau er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg ac mae wedi ymdrechu i gyflawni ei ddyletswyddau drwy anogaeth gadarnhaol a thrwy fabwysiadu dull cynhwysol o roi'r Cynllun ar waith. Y Dirprwy Brif Swyddog Tân a Chadeirydd yr Awdurdod Tân sy'n gyfrifol am y Gymraeg yn eu portffolio sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried ar y lefelau uchaf. Mae'r Gwasanaeth wedi dechrau ar y gwaith o asesu gofynion pob swydd o ran yr iaith Gymraeg yn wrthrychol er mwyn nodi unrhyw fylchau yn y gwasanaeth. Dylai'r Gwasanaeth gwblhau'r gwaith hwn cyn gynted â phosibl er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion. Gwelwyd gwelliant sylweddol yng ngallu'r sefydliad i ohebu â'r cyhoedd yn unol â'r Cynllun Iaith.

## Mae trefniadau digonol ar waith i fodloni deddfwriaeth Datgelu er Budd y Cyhoedd

71 Mae'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau digonol ar waith i fodloni gofynion Deddf Datgelu er Budd y Cyhoedd 1998, a'r newidiadau a wnaed i gyfraith Chwythu'r Chwiban gan Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013.

72 Mae wedi derbyn cyngor a chymorth allanol i ddatblygu polisi newydd ym maes Datgelu er Budd y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban) ac mae wedi ymgynghori ar y polisi newydd hwn. Cytunwyd ar y polisi ar 9 Rhagfyr 2013. Dylai'r Awdurdod bellach sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r polisi newydd a sut mae'n effeithio arnynt.

## Mae gwaith yn parhau gydag Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru i ddatblygu gwybodaeth sylfaenol Adnoddau Dynol gyson

73 Yn ein Cynllun Rheoliadol Blynyddol gwnaethom nodi y byddem yn cynnal adolygiad thematig o'r trefniadau sy'n cwmpasu Adnoddau Dynol yn Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ogystal ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo o hyd.

74 Yn ystod 2013, cytunwyd ar drefniadau rhwng yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru i ddatblygu gwybodaeth sylfaenol gyffredin am weithgareddau ac adnoddau Adnoddau Dynol, fel bod modd gwneud cymariaethau ystyrlon. Rydym yn cefnogi'r uchelgais hon ac anogwn ddadansoddiad pellach er mwyn nodi tueddiadau ac eithafion. Byddwn yn gweithio gyda'r Awdurdodau i ddatblygu a defnyddio'r wybodaeth hon yn ystod 2014.

## Mae angen arweinyddiaeth gref ar lefel Aelod ac Uwch Swyddog o'r Awdurdod er mwyn gweithredu'r newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth

75 Mae arweinwyr yr Awdurdod yn parhau i weithredu newidiadau y cytunwyd arnynt gan yr Awdurdod ond bu'n anodd gweithredu rhai o'r newidiadau arfaethedig ac, er bod swyddogion wedi gwneud penderfyniadau anodd, mae heriau yn ei wynebu o hyd.

76 Yn ein cynllun Gwaith Archwilio Perfformiad gwnaethom nodi y byddem yn ymchwilio i faterion a godwyd gyda ni mewn gohebiaeth. Mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau ac mae ein canfyddiadau yn nodi bod y materion a godwyd gyda ni yn ddi-sail. Ymhlith y meysydd a godwyd mae'r canlynol:

- defnydd amhriodol o geir prydles a thanwydd;
- natur a manylion y wybodaeth a roddir i'r Awdurdod er mwyn iddo wneud penderfyniadau yn seiliedig arni a sicrhau y rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ganlyniadau penderfyniadau blaenorol a materion eraill;
- y defnydd o weithdrefnau disgyblu;
- cyflogau a lwfansau uwch swyddogion;
- y defnydd o 'gymalau cau ceg';
- materion sy'n ymwneud â chyflogaeth gan gynnwys cydymffurfiaeth â'r gyfarwyddeb oriau gwaith, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a phrosesau adleoli; a

- chwestiynau am y Cyfansoddiad a sut mae'n Awdurdod yn cynnal ei fusnes.

77 Wrth ymchwilio i'r materion hyn, adolygwyd adroddiadau gwahanol sefydliadau y mae materion tebyg, ac mewn rhai achosion, yr un materion wedi'u codi gyda hwy gan gynnwys y Panel Cynghori Technegol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, VOSA (yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr) a chanlyniadau Tribiwnlysoedd Cyflogaeth. Nododd y ffynonellau annibynnol hyn fod y materion a godwyd yn ddi-sail hefyd.

78 Er nad yw'n annisgwyl y bydd angen i Awdurdod ddelio â chwynion ac anfodlonrwydd fel rhan o'i fusnes arferol, ac er ei bod yn hollol briodol i'r bobl hynny sydd â rheswm dros gredu bod rhywun wedi ymddwyn mewn ffordd amhriodol godi materion, mae'r amser a gymerir gan yr Awdurdod i ddelio â'r un cwynion a chwynion tebyg yn tynnu ei sylw oddi wrth ei ddyletswyddau o ddydd i ddydd mewn ffordd sy'n gyfystyr â defnydd aneffeithlon o amser. Mae angen i'r Awdurdod hefyd ystyried sut mae'n delio â chwynion o ystyried y pwysau ariannol parhaus a'r penderfyniadau anodd y bydd angen eu gwneud yn y dyfodol.

79 Gan fod yr Awdurdod yn bwriadu parhau i newid ei drefniadau gweithredol, dylai aelodau a swyddogion gyda'i gilydd ystyried y rhesymau dros y diffyg hyder mewn prosesau gwneud penderfyniadau a amlygir gan y nifer fawr o faterion a godir, a chwilio am ffyrdd o gyfleu ei benderfyniadau a'r rhesymeg dros ei benderfyniadau yn well. Er enghraifft, mae'r penderfyniad i gaffael Pympiau Ymateb Gwledig i gymryd lle rhai cerbydau tân safonol ar draws y fflyd, a newid trefniadau o ran criwiau yn Llanelli wedi rhoi pwysau sylweddol ar yr Awdurdod, ac mae'r Awdurdod wedi treulio cryn dipyn o amser ac wedi neilltuo cryn dipyn o adnoddau yn delio â'r gwrthwynebiad i'r cynlluniau, sy'n arafu'r broses o gyflwyno newidiadau ledled yr Awdurdod.

80 At hynny, mae angen i'r Awdurdod benderfynu sut y gellir gwella ei drefniadau ar gyfer rheoli newid a llywodraethu er mwyn helpu uwch swyddogion i roi ffyrdd newydd o weithio ar waith a dangos perchenogaeth gyfunol o brosesau gwneud penderfyniadau. Gallai hyn gynnwys:

- gwella safon cadw cofnodion mewn cyfarfodydd;
- cynnal strategaeth cyfryngau a chyfathrebu effeithiol ar bob lefel er mwyn rhoi sicrwydd effeithiol i'r cyhoedd bod angen newidiadau y cytunwyd arnynt a hysbysu'r cyhoedd mewn modd priodol o'r proffil risg a fydd yn gysylltiedig â'r newid;

- adolygu sut y gellir datblygu cysylltiadau â'i randdeiliaid allanol er mwyn sicrhau, er y gellir herio penderfyniadau, fod modd gwneud hyn mewn amgylchedd lle y cytunwyd ar gyfres gyffredin o werthoedd;

- adolygu a yw trefniadau dirprwyedig presennol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn briodol (nawr ac yn sgil unrhyw newidiadau a wneir yn y dyfodol o ganlyniad i Adroddiad y Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus, Ionawr 2014); ac

- ystyried gwasanaeth cyfryngu neu hwyluso allanol a chyngor allanol lle y bo angen.

81 Er gwaethaf her allanol mae'r newidiadau o ran criwiau y cytunwyd arnynt gan yr Awdurdod bellach wedi'u gweithredu. Mae hyn yn sicrhau arbedion cost tra bod cydnerthedd gweithredol wedi'i gynnal. Mae hefyd wedi cynnwys datblygu trefniadau gwerthuso a chyfathrebu gwell fel amcan gwella ar gyfer 2014-15.

## Mae'r Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2014-15 os gall ateb yr heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r newidiadau arfaethedig

82 Yn seiliedig ar y casgliadau a amlinellir yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn debygol o fodloni gofynion y Mesur i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus os gall fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r newidiadau arfaethedig.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig staff Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Yr Awdurdod

Mae'n rhaid i'r Awdurdod gyflawni'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau priodol. Mae tri darn pwysig o ddeddfwriaeth yn ymwneud ag awdurdodau tân:

## Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod tân wneud darpariaeth ar gyfer diffodd tanau, sydd hefyd yn golygu diogelu bywydau ac eiddo mewn achosion o dân yn ogystal â diffodd tanau. Mae hefyd yn darparu ar gyfer ymateb i wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac argyfyngau eraill yn ogystal â gweithgareddau diogelwch cymunedol.

## Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

Daeth y Gorchymyn i rym ar 1 Hydref 2006, gan ddisodli dros 70 o ddarnau unigol o ddeddfwriaeth ar ddiogelwch tân. Diddymwyd y gofyniad i fusnesau feddu ar dystysgrifau tân. Mae'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn gymwys i bob safle annomestig yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys rhannau cyffredin blociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth. Mae'n rhoi cyfrifoldeb i'r rhai sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â diogelwch tân a sicrhau y caiff risgiau eu hadolygu'n barhaus. O dan y Gorchymyn mae'n ofynnol i'r Person Cyfrifol[3] gynnal asesiad risg tân a rhoi mesurau diogelwch tân priodol ar waith er mwyn sicrhau'r risg leiaf posibl i fywydau o ganlyniad i dân; a sicrhau bod yr asesiad yn gyfredol. Caiff y Gorchymyn ei orfodi gan Awdurdodau Tân ac Achub y disgwylir iddynt ddatblygu cyfundrefnau arolygu priodol yn seiliedig ar risg.

## Deddf Argyfyngau Sifil 2004

Mae'r Ddeddf yn darparu un fframwaith ar gyfer mesurau amddiffyn sifil yn y Deyrnas Unedig a all ateb heriau'r unfed ganrif ar hugain. Rhennir y Ddeddf yn ddwy ran; Rhan 1 sy'n diffinio rhwymedigaethau sefydliadau penodol i baratoi ar gyfer mathau amrywiol o argyfyngau a Rhan 2 sy'n darparu pwerau ychwanegol i'w defnyddio gan y Llywodraeth os bydd argyfwng difrifol. O dan y Ddeddf caiff gwasanaethau tân ac achub eu diffinio yn Ymatebwyr Categori 1 ac fel y cyfryw mae ganddynt chwe dyletswydd benodol i'w cyflawni:

- asesu'r risg o argyfyngau a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio gwaith cynllunio wrth gefn;
- rhoi cynlluniau argyfwng ar waith;
- rhoi trefniadau Rheoli Parhad Busnes ar waith;

3 Mae dogfennau Cyfraith a Chanllawiau Diogelwch Tân yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol i fusnesau yn datgan bod y gyfraith yn gymwys os ydych: yn gyfrifol am safle busnes, yn gyflogwr neu'n unigolyn hunangyflogedig sydd â safle busnes, yn gyfrifol am ran o anheddiad sy'n cael ei defnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion busnes, yn elusen neu'n sefydliad gwirfoddol, yn gontractwr â rhywfaint o reolaeth dros unrhyw safle, yn darparu llety i westeion sy'n talu.

- rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth am faterion amddiffyn sifil ar gael i'r cyhoedd a chynnal trefniadau i rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd mewn achos o argyfwng;
- rhannu gwybodaeth ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella'r broses gydgysylltu; a
- chydweithio ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella prosesau cydgysylltu ac effeithlonrwydd.

Gosodir dyletswydd ychwanegol ar awdurdodau lleol i roi cyngor a chymorth i fusnesau a sefydliadau gwirfoddol ar reoli parhad busnes. Gellir galw ar wasanaethau tân ac achub lleol i helpu yn y rôl hon.

Mae sefydliadau Categori 2 yn cynnwys sefydliadau megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cwmnïau trafnidiaeth a chwmnïau cyfleustodau. Bydd sefydliadau Categori 1 a Chategori 2 yn sefydlu Fforymau Cydnerthu Lleol (yn seiliedig ar ardaloedd yr heddlu) a fydd yn helpu ymatebwyr i gydgysylltu a chydweithio yn lleol.

Caiff yr Awdurdod ei ariannu'n uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol sy'n rhan ohono yn seiliedig ar yr etholwyr cofrestredig ym mhob ardal. Mae'n cynnwys 25 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Caiff nifer y cynrychiolwyr o bob awdurdod cyfansoddol ei phennu gan nifer yr etholwyr llywodraeth leol cofrestredig ym mhob ardal.

Cyllideb refeniw flynyddol yr Awdurdod ar gyfer 2013-2014 yw £43.9 miliwn. Yn yr un flwyddyn, roedd gan yr Awdurdod gyllideb gyfalaf o £4.3 miliwn hefyd. Mae hyn yn cyfateb i tua £49 fesul trigolyn.

Cadeirydd presennol yr Awdurdod Tân ac Achub yw'r Cynghorydd Roy Llewellyn.

Yr Awdurdod yw'r prif gorff ar gyfer llunio polisïau ac mae'n llywodraethu'r broses o fabwysiadu arferion gwaith amrywiol yn unol â chanllawiau statudol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cyfarfod bob chwarter ac ategir ei waith gan bedwar prif bwyllgor; sef Archwilio Perfformiad, Archwilio a Chraffu; Rheoli Adnoddau; Safonau; a Chydnabyddiaeth. Mae'r grwpiau hyn i gyd yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried materion o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ac mae cofnodion o drafodion yr Awdurdod ar gael ar ei wefan.

Arweinir a rheolir y Gwasanaeth gan Christopher Davies, y Prif Swyddog Tân, gyda chymorth y Bwrdd Gweithredol sy'n cynnwys y Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion sy'n arwain cyfarwyddiaethau gwasanaeth.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan yr Awdurdod ei hun yn www.mawwfire.gov.uk neu cysylltwch â'r Awdurdod ym Mhencadlys yr Awdurdod, Lime Grove Avenue, Caerfyrddin, SA31 1SP.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Richard Smith
Prif Swyddog Tân
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lime Grove Avenue
Caerfyrddin
SA31 1SP

Annwyl Richard

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd yr Awdurdod â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion, a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- bodloni gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 25 Medi 2013 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 23 Medi 2013, a chyflwynir adroddiad manylach maes o law.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Nid wyf mewn sefyllfa eto i ardystio cau archwiliad 2012/13 na darparu fy ystyriaeth gyffredinol o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd nes i mi orffen ystyried materion y gwnaeth etholwyr awdurdodau lleol ddwyn fy sylw atynt.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol. Bydd ffioedd ychwanegol yn deillio o'r angen i ymdrin â'r materion y gwnaeth etholwyr awdurdodau lleol ddwyn fy sylw atynt.

Yn gywir

**Virginia Stevens**

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
28 Tachwedd 2013

copi. Elizabeth Aitken, Dirprwy Brif Swyddog

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Amcanion gwella'r Awdurdod

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu gwneud i wella. Rhaid i'r Awdurdod wneud hyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol y mae'r cynllun yn ymwneud â hi (bwriad y polisi yw y bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn cyhoeddi rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth).

Cyhoeddodd yr Awdurdod ei amcanion gwella ar gyfer 2014-15 ar wefan yr Awdurdod.

Maent fel a ganlyn:

| Amcanion gwella 2012-13 | Amcanion gwella 2013-14 | Amcanion gwella 2014-15 |
|---|---|---|
| **Rheoli Risg**<br>Mae plant a phobl ifanc yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn ddiogel ac yn ddinasyddion cyfrifol. | **Rheoli Risg**<br>Mae dinasyddion a chymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r rhai sy'n ymweld â'n hardal yn ddiogel. | **Gwella ein Prosesau Cyfathrebu / Ymgysylltu Mewnol ac Allanol**<br>Mae Staff, Cymunedau a Rhanddeiliaid yn ystyried bod ganddynt fwy o wybodaeth ac maent yn ymwybodol o'r hyn rydym yn ei wneud a pha mor dda rydym yn ei wneud. |
| **Rheoli Pobl**<br>Gweithlu sy'n meddu ar sgiliau lluosog, yn gymwys, yn ddiogel ac yn hyblyg ac yn diwallu anghenion ein cymunedau. | **Rheoli Pobl**<br>Gweithlu sy'n meddu ar sgiliau lluosog, yn gymwys, yn ddiogel ac yn hyblyg ac yn diwallu anghenion ein cymunedau. | **Rheoli Cyllidebau Llai er mwyn cefnogi cymunedau mwy diogel**<br>Parhau i wneud cymunedau yn fwy diogel drwy leihau risgiau a chynnal ein safonau o ran darparu gwasanaethau o fewn cyllideb lai. |
| **Cydweithio**<br>Bod dinasyddion sy'n agored i niwed yn byw'n ddiogel yn ein cymunedau. | **Cydweithio**<br>Bod dinasyddion sy'n agored i niwed yn byw'n ddiogel yn ein cymunedau. | **Gwella ein Proses Werthuso**<br>Mae'r Gwasanaeth yn deall sut mae'r hyn rydym yn ei wneud yn sicrhau canlyniadau gwell i'n cymunedau er mwy llywio gwaith cynllunio yn y dyfodol a gwella'r gwasanaethau a ddarperir gennym. |

| Amcanion gwella 2012-13 | Amcanion gwella 2013-14 | Amcanion gwella 2014-15 |
|---|---|---|
| **Rheoli Adnoddau**<br>Gwasanaeth llwyddiannus ac effeithlon, sy'n rheoli adnoddau yn effeithiol ac yn darparu gwerth ardderchog am arian i'n cymunedau. | **Rheoli Adnoddau**<br>Y dylai cymunedau gael gwerth am arian. | |
| | **Rheoli Perfformiad**<br>Bod cymunedau a dinasyddion yn teimlo'n wybodus, yn ddiogel a bod ganddynt hyder yn y Gwasanaethau a ddarperir gennym. | |

## Hunanasesiad yr Awdurdod o berfformiad

Mae hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn ystod 2012-13 ar gael ar wefan yr Awdurdod.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk